



cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: 6 Medi 2010



Gwaith sylweddol i newid gwedd allanol fflatiau yn Aberystwyth

Yn ystod y chwe mis nesaf bydd gwaith sylweddol yn cael ei wneud i newid gwedd allanol y blociau o fflatiau sydd wrth ochr y ffordd ym Mhenparcau, Aberystwyth. Mae Tai Ceredigion, y gymdeithas dai leol, wedi rhoi cychwyn ar y gwaith ac wedi paratoi cynlluniau i ddangos sut olwg a theimlad fydd i'r ystadau.

Yn ogystal â'r pedwar bloc mawr o fflatiau sydd ar ochr y ffordd ym Mhenparcau, mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys rhai fflatiau deulawr ar ystad Bryn Rheidol. Y cynlluniau hyn yw cam cyntaf y gwaith wedi i Tai Ceredigion sicrhau grant o £550,000 yn ddiweddar gan gynllun ARBED Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i ariannu prosiectau ynni gwyrdd yn Ardal Adfywio Aberystwyth.

Ym mis Awst, cynhaliodd staff Tai Ceredigion ddiwrnod agored yn Neuadd yr Eglwys ym Mhenparcau, gyda chynrychiolwyr o'r cwmni penseiri, Cymru Gynnes ac asiantaethau eraill

sy'n ymwneud â'r gwaith trawsnewid, a gwahoddwyd tenantiaid a lesddeiliaid presennol i weld y cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a rhoi eu hadborth.

Yn ogystal ag edrych yn dda, dangoswyd i'r tenantiaid a'r lesddeiliaid sut y bydd y gwelliannau'n fanteisiol i'r preswylwyr o safbwynt ariannol gan y bydd yr adeiladau, i bob pwrpas, yn cael blanced newydd drostynt wrth i ddeunydd inswleiddio, a allai arbed hyd at 40% i breswylwyr ar eu biliau gwresogi, gael ei osod ar y waliau allanol.

Mae'r cynlluniau allanol hefyd yn cynnwys ardaloedd parcio a sychu dillad mwy pendant i'r preswylwyr, terasau ar gyfer fflatiau ar y llawr gwaelod a manau storio diogel sydd wedi'u hadeiladu'n benodol at ddiben cadw beiciau a biniau. Mae'r posibilrwydd o osod balconi ar rai fflatiau ar y llawr cyntaf a'r ail lawr yn cael ei ystyried hefyd, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio ac ystyriaethau o ran cost. Ond yn bwysicach, bydd ffens derfyn yn cael ei gosod o gwmpas y blociau o fflatiau, a fydd yn galluogi plant i chwarae'n rhydd ac yn ddiogel, ac yn atal pobl nad ydynt yn breswylwyr rhag croesi ar hyd yr ardaloedd glaswelltog.

Bydd rhai o denantiaid a lesddeiliaid y fflatiau a'r fflatiau deulawr ar ystad Bryn Rheidol hefyd yn elwa o'r cynlluniau, gan iddynt gael eu cynnwys yn y cam cyntaf o welliannau. Bydd gwaith tebyg yn cael ei wneud i osod deunydd inswleiddio ar waliau allanol y fflatiau hyn hefyd, a fydd yn gwella golwg yr adeiladau ac yn gwella'r lefelau inswleiddio.

Meddai Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion, "Rydym wrth ein bodd o fod wedi dechrau'r cyfnod ymgynghori trwy ddangos i'n tenantiaid a'n lesddeiliaid cam cyntaf y cynlluniau gwella yn ardal Aberystwyth. Mae'n adeg gyffrous iawn, gan fod angen moderneiddio'r cartrefi hyn i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru fel y'i pennwyd ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad. Rydym yn gobeithio y bydd yr holl welliannau'n helpu i greu amgylchedd allanol mwy dymunol, gan ddefnyddio cymysgedd addas o liwiau, yn ogystal â bod o fudd i breswylwyr yn ariannol gan ddarparu cynhesrwydd sy'n fwy fforddiadwy."

Mae Tai Ceredigion hefyd yn gweithio'n galed ar draws rhannau eraill o'r sir, gan ymgynghori â thenantiaid ynghylch y rhaglen wella i sicrhau bod y tai'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. At hynny, mae systemau ynni gwyrdd newydd yn cael eu treialu yn lle olew neu nwy drud mewn sawl ardal wledig nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy. Y peth nesaf ar y rhestr yw'r cynlluniau i ymgynghori â thenantiaid a pherchen-breswylwyr ar y gwaith arfaethedig i ailgynllunio gwedd allanol ystad yn Llanarth, ac mae hynny'n dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar welliannau i gyfleusterau parcio a diogelwch ar y ffyrdd yn Nhal-y-bont. Mae Tai Ceredigion yn bwriadu gwario hyd at £40m yn ystod y pum mlynedd nesaf ar wella cartrefi ar y tu mewn a'r tu allan.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Tai Ceredigion drwy gysylltu â Kate Williams, Rheolwr Cyfrif Cysylltiadau Cyhoeddus ar **07786 550054 / 01970 636418** neu kate@fbagroup.co.uk.

1. Tai Ceredigion yw'r gymdeithas dai ddi-elw newydd sydd wedi'i sefydlu yn yr ardal. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r cyngor, a phartneriaid eraill sy'n gweithio yn yr ardal, i helpu i ddiwallu anghenion tenantiaid, preswylwyr a lesddeiliaid Ceredigion.
2. Mae gan Tai Ceredigion 2229 o gartrefi rhent a 140 eiddo ar brydles. Yn flaenorol, Cyngor Ceredigion oedd yn berchen ar y cartrefi hyn ac yn eu cynnal a'u cadw. Mae angen cynnal a chadw'r holl gartrefi hyn a sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
3. Mae cyllid newydd gan Lywodraeth y Cynulliad a buddsoddiad gan Fanc Barclays yn golygu bod rhyw £136 miliwn ar gael ar gyfer cynllun busnes 30 mlynedd Tai Ceredigion. Yn flaenorol, roedd cyfyngiadau llym ar allu cynghorau i fenthyca arian ar gyfer tai, a chât cyllidebau eu neilltuo.
4. Mae gan Tai Ceredigion statws elusenol, sy'n sicrhau y gellir ailfuddsoddi mwy o incwm mewn gwella cartrefi tenantiaid a rhedeg y gwasanaeth tai.
5. Cafodd y trosglwyddiad ei gymeradwyo gan fwyafrif y tenantiaid a bleidleisiodd, ac mae'n golygu bod llawer mwy o gyllid ar gael yn awr ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig, gwelliannau i eiddo, a gwaith codi tai newydd ar gyfer pobl leol yn y tymor hwy.
6. Mae Tai Ceredigion yn bwriadu gwario hyd at £40 miliwn ar welliannau yn ystod y pum mlynedd nesaf, ac mae wedi dechrau ymgynghori â thenantiaid a lesddeiliaid ynghylch sut i gyflwyno'r rhaglen hon.